

Addysgu ieithoedd mewn ysgolion cynradd: Ôl-ddechreuwyr

Ffrangeg/Almaeneg/Sbaeneg/Tsieineeg Mandarin

Mae'r modiwl hwn yn cynnwys dwy elfen allweddol:

1) Modiwl lefel 1 Y Brifysgol Agored elfennol sy'n rhoi'r dewis i chi astudio Ffrangeg, Almaeneg, Sbaeneg neu Tsieineeg Mandarin.

- Bydd y pedwar llinyn iaith yn meithrin y sgiliau sydd eu hangen ar fyfyrwyr i siarad a deall Ffrangeg, Almaeneg, Sbaeneg neu Tsieineeg Mandarin syml mewn sefyllfaoedd bob dydd.
- Maent wedi'u cynllunio i alluogi'r myfyrwyr i gyflawni lefel o ruglder ieithyddol sy'n cyfateb i lefel A2 Fframwaith Cyfeirio Ieithoedd Ewropeaidd Cyffredin Cyngor Ewrop (CEFR).
- Mae angen dealltwriaeth ymarferol o Ffrangeg, Almaeneg, Sbaeneg neu Tsieineeg Mandarin er mwyn astudio'r modiwl hwn, sy'n cyfateb i lefel A1 CEFR. Gellir meithrin y ddealltwriaeth hon drwy astudio modiwlau rhagarweiniol LXT192, LXT193, LXT194, LXT197, drwy astudiaeth gyfatebol yn rhywle arall neu drwy ymweliadau estynedig â'r gwledydd lle mae'r iaith darged yn cael ei siarad.
- Mae'r adnoddau astudio yn cynnwys llyfrau'r modiwl mewn fformat PDF, recordiadau sain digidol, gwefan modiwl benodedig a gweithgareddau ar-lein, y mae pob un ohonynt yn cefnogi dysgu annibynnol. Gyda'i gilydd, byddant yn rhoi ymdeimlad go iawn i'r myfyrwyr o ddiwylliannau Ffrangeg/Almaeneg/Sbaeneg neu Tsieineeg Mandarin eu hiaith, yn ogystal â sgiliau iaith.

2) Llinyn â dull myfyriol cryf, sydd wedi'i gynllunio i feithrin y sgiliau sydd eu hangen arnoch i addysgu Ffrangeg, Almaeneg, Sbaeneg neu Tsieineeg Mandarin elfennol yn eich ystafell ddosbarth cynradd a meithrin sgiliau iaith a llythrennedd eich disgyblion.

- Mae'n archwilio'r ffordd bresennol o feddwl ym maes theori ac ymarfer addysgu ieithoedd cynradd, mae'n eich ymgysgu â chysyniadau addysgegol allweddol i'w hymgorffori mewn arferion ystafell ddosbarth dyddiol, mae'n defnyddio elfennau amlgyfrwng i'ch cyflwyno i ddulliau addysgu y tu fewn a'r tu allan i'r ystafell ddosbarth ac yn eich tywys i gymhwyso eich gwybodaeth newydd yn eich cyd-destun addysgu

eich hun.

- Bydd rhan o'r gwaith cwrs yn digwydd ar wefan benodedig ac mewn tiwtorialau ar-lein, ond byddwch hefyd yn treulio amser yn rhoi cynnig ar yr hyn rydych wedi'i ddysgu a myfrio ar hyn gyda chyd-fyfyrwyr.

Modiwl

- Cod y modiwl: LXT191
- Credydau: 15
- Dull astudio – [Dysgu o Bell](#)



Mae'r gwaith cwrs yn cynnwys:

iaith

- 2 Aseiniad a gaiff eu marcio gan diwtoriaid (TMA)
- 2 Aseiniad rhyngweithiol a gaiff eu marcio gan gyfrifiadur (iCMA)
- Dim arholiad
- Dim ysgol breswyl

Addysgeg

- 4 darn myfyriol ffurfiannol ysgrifenedig 300-500 o eiriau ar ffurf blog am y trafodaethau ymhlith y garfan o fyfyrwyr sy'n ymwneud â chymhwyso'r addysgeg a'r iaith a astudiwyd yn yr ystafell ddosbarth
- 1 darn myfyriol ffurfiannol terfynol ysgrifenedig 500-800 o eiriau sy'n crynhoi effaith y dysgu ym mhwm bloc y cwrs ar arferion addysgu'r myfyrwyr unigol, gan gynnwys cynllun i ddatblygu eich arfer eich hun ymhellach

Yr hyn y byddwch yn ei astudio:

Mae'r modiwl iaith yn seiliedig ar un llyfr ac wrth ei graidd mae iddo'r elfennau canlynol:

- gwybodaeth hawdd ei defnyddio ac mewn darnau byr sy'n ymdrin ag iaith ac agweddau diwylliannol
- meithrin sgiliau astudio ac iaith graddol
- datblygu geirfa syml ac ymadroddion penodol
- deunydd sain, yn cynnwys recordiadau gan siaradwyr Ffrangeg, Almaeneg, Sbaeneg a Tsieineeg Mandarin cymwys ac amrywiaeth eang o weithgareddau siarad
- gweithgareddau ymarfer a phrofion hunanasesu i fonitro eich cynnydd
- clipiau fideo ar-lein rheolaidd i gefnogi eich gweithgareddau ymarfer.

Mae'r modiwl addysgeg yn seiliedig ar wefan benodedig ac wrth ei graidd mae iddo'r elfennau canlynol:

- theori a gwybodaeth ymarferol, sy'n hawdd ei defnyddio ac mewn darnau byr sy'n ymdrin ag addysgu ieithoedd ar lefel gynradd
- meithrin sgiliau astudio ac addysgu iaith graddol
- deunydd clyweledol, gan gynnwys gweithgareddau ystafell ddosbarth go iawn ar gyfer myfyrio beirniadol yn ogystal ag amrywiaeth o fentrau cymunedol, megis dysgu yn yr awyr agored, sy'n amlygu'r modd y gellir ymgorffori ieithoedd mewn amrywiaeth eang o weithgareddau ysgol gynradd
- canllawiau ar ddysgu rhyngddisgyblaethol ac ymgysylltu â'r gymuned ehangach
- gweithgareddau ymarfer a phrofion hunanasesu i fonitro eich cynnydd
- deunyddiau ar gyfer eich gwaith ymchwil pellach eich hun yn y maes hwn
- trafodaethau grŵp cyfoedion ar-lein rheolaidd i gefnogi eich gweithgareddau astudio ac ymarfer.

Mae'r elfen addysgeg yn cynnwys cydbwysedd o theori ac ymarfer sy'n eich galluogi i ymgysylltu â'r ddau mewn amgylchedd cefnogol proffesiynol. Byddwch yn cael y cyfle i gymhwyso eich sgiliau iaith newydd yn eich ystafell ddosbarth gyda'ch disgyblion.

Rheoliadau

Fel un o fyfyrwyr Y Brifysgol Agored, dylech fod yn ymwybodol o gynnwys y rheoliadau academaidd sydd ar gael ar ein gwefan [Doofennau Hanfodol](#).

Os oes gennych anabledd

Noder bod y modiwl hwn yn gwneud defnydd sylweddol o ddeunyddiau sain a gweledol. Darperir trawsgrifiadau llawn o'r deunyddiau sain, ac eithrio'r rhai a ddefnyddir at ddibenion asesu. Mae'r elfennau ysgrifenedig a llafar y gofynnir i chi eu cwblhau fel rhan o'ch asesiad yn defnyddio ysgogiadau sain ac o bosibl ysgogiadau gweledol.

Mae'r deunyddiau astudio ar gael mewn fersiynau amgen ar ffurf Word i'w defnyddio gyda meddalwedd darllen sgrin. Maent hefyd ar gael mewn fformat dogfen gludadwy (PDF) Adobe.

Efallai na fydd rhai elfennau PDF Adobe ar gael neu ddim yn gwbl hygyrch drwy ddefnyddio meddalwedd darllen sgrin, a gall deunyddiau iaith dramor fod yn arbennig o anodd eu darllen yn y ffordd hon. Gellir darparu fersiynau o'r deunyddiau astudio ysgrifenedig wedi'u rwympo â chrib ar gais hefyd.

Bydd angen i chi wneud defnydd sylweddol o gyfrifiadur personol a'r rhyngwrdd. Os byddwch yn defnyddio caledwedd neu feddalwedd arbenigol i'ch helpu i ddefnyddio cyfrifiadur neu gyda'r math hwn o ddeunydd, fe'ch cynghorir i [gysylltu â ni](#) am gymorth y gellir ei roi i ddiwallu eich anghenion.

Os oes gennych ofynion astudio penodol dywedwch wrthym cyn gynted â phosibl, oherwydd gall gymryd sawl wythnos i drefnu rhai o'n gwasanaethau cymorth. Dysgwch fwy am ein [gwasanaethau i fyfyrwyr anabl](#).